

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Mawrth 3ydd, 2016 yn brydlon am 7-00 y.h. yn

### **Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Chwefror 4ydd, 2016.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
  1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, cyflwr y ffordd rhwng Groeslon Dulwyn hyd at Lwyn Dwyfog.
  2. Rheoleiddio; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cau'r Briffordd rhwng Llanarmon a Groeslon Tŷ Newydd.
  3. Cefnogaeth Gorfforaethol; cyfarfod ym Mhlas Heli, Pwllheli, nos Fawrth, Mawrth 15fed, 2016.
  4. Gohebiaeth oddi wrth Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ynghylch cyflwr y Lôn Goed yn dilyn llythyr i'r Cyngor yma oddi wrth Mrs Ann Thomas, Maes Gwyn Isaf, Lôn Goed ac hefyd llwybr 88 yn Afonwen.
  5. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Gwynedd a Môn; Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau.

6. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0091/41/LL- Cais i godi tŷ ar safle eithrio gwledig; Tir ger Y Dolydd, 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd. Wedi derbyn llythyr gwrthwynebiad i'r cais yma.
  2. Cais rhif C16/0015/41/LL – Adeiladu storfa pit silwair; Hendy, Ynys.
  3. Cais rhif C16/0170/41/LL – Diwygiad o gais a wrthodwyd o dan C15/1163/41/LL; Glan Dwyfor, Llanystumdwy.

7. Dim ymateb i'r hysbysiad yn Rhoslan ac ar safle we'r Cyngor yn gofyn am fynegi diddordeb mewn bod yn Gynghorydd dros Ward Rhoslan ar Y Cyngor, felly angen cyfethol Cynghorydd dros Ward Rhoslan.

8. Heddlu Gogledd Cymru; Tim Plismona Cymdogaeth De Gwynedd.

9. Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

#### **10. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Chwilog/Rhoslan

Dŵr dyfn dros wyneb y ffordd rhwng Tyddyn Crythor a Betws Fawr.

#### Llangybi:

.

11. Llythyrau/e byst yn diolch am gyfraniadau ariannol:
  1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
  2. Mynwent Capel Helyg.
  3. Aelwyd Chwilog.
  4. Cyngor ar Bopeth.
  5. Gŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd 2016.
  6. Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016.
  7. Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen.

8. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.

9. Canolfan Awyr Airbase.

10. Mynwent Newydd Llanystumdwy.

Heb glywed dim oddi wrth Cylch Meithrin Chwilog nac O Ddrws i Ddrws.

Heb gyflwyno'u sieciau: Eisteddfod Llangollen nac O Ddrws i Ddrws.

12. Cyngor Gwynedd; ad daliad arian llwybrau, £955-.

13. Adroddiad ariannol ar lafar.

14. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr Gareth Jones, cadw safle bedd David Lloyd George yn daclus, £240- Taliad siec.

b. Cyllid a Thollau EM; £171.80c.(Gweinyddu) Taliad Siec.

c. Cyflog Chwarterol y Clerc, £687.20c net.(Gweinyddu) Taliad Siec.

Ch. Costau Chwarterol y Clerc, £68.07c. (Gweinyddu) Taliad Siec.

d. Neuadd Llanystumdwy, am gael defnyddio'r Neuadd ar gyfer dau gyfarfod o'r Cyngor, £30- Taliad Siec.

Wedi gofyn i Neuadd Goffa Chwilog am anfoneb am gael defnyddio'r neuadd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.

15. Llochesi bws yn y gymuned (9); Cytundeb 3 blynedd i'w glanhau 4 gwaith y flwyddyn.

16. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.